
# CYNGOR TREF LLANELLI
# RHYBUDD TRETH CYNGOR
# 2022/2023

**Er mwyn i'r Cyngor allu parhau i gynnal a gwella'r gwasanaethau sy'n bwysig i'n cymuned heb gynyddu'r baich ar drethdalwyr lleol, bydd Cyngor Tref Llanelli ar gyfer 2022-23 yn gostwng ei braesept i'w godi ar Drethdalwyr Llanelli ar £943,717. Bydd hyn yn arwain at eiddo Band D yn gweld eu Treth y Cyngor yn aros yn £106.26 yn 2022-23.**




## HAMDDEN A CHWARAEON

Mae Cyngor y Dref yn darparu cyfleusterau gwych yn Stebonheath, cartref i Glwb Pêl-droed Tref Llanelli a Rygbi'r Gynghrair Raiders Gorllewin Cymru ac yng Nghanolfan Selwyn Samuel a fydd yn ail agor ym mis Mai 2022 yn dilyn ei ddefnyddio fel Ysbyty Enfys Selwyn Samuel yn ystod y pandemig. Mae'r Cyngor yn Rheoli Parciau a Chaeau Chwarae yn Clos yr Ysgol, Parc y Goron, Parc Havelock, Cae Llanerch, Parc Morfa, Parc Nightingale, Caeau Chwarae Penygaer, Parc y Bobl a Pharc Penyfan gyda Pharc Newydd yn Stryd Ann i ddilyn mewn i reolaeth y Cyngor Tref yn fuan. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Cyngor Sir trwy gyfraniad ariannol y Cyngor Dref ac aelodaeth o Grŵp Cydweithredu Parc Howard i reoli Parc Howard ar y cyd, gan sicrhau bod y cyfleuster yn cael ei wella ac yn parhau i fod mewn buddiant cyhoeddus.

Yn ystod 2021-22 mae'r Cyngor Tref wedi datblygu'r Cwrt Cruyff newydd ym Mhenyfan ynghyd â pharc sglefrio newydd ym Mharc y Bobl.

## DIGWYDDIADAU A HYRWYDDIADAU

Mae Cyngor y Dref yn cyllido darpariaeth a chynhaliaeth y basgedi blodau yng Nghanol y Dref, mae'r rhain yn wledd o liw drwy fisoedd yr haf. Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos gydag Ardal Gwella Busnes Llanelli i gefnogi nifer o ddigwyddiadau yng nghanol y dref a drefnwyd yn ystod y flwyddyn sydd ar hyn o bryd yn cynnwys Gŵyl Gerddoriaeth yr 80au, Gŵyl Fwyd a Gorymdaith Ceirw. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda'r Cyngor Sir a Chyngor Gwledig Llanelli i drefnu ac ariannu'r Carnifal Nadolig Blynyddol.

| 2021/2022 | | 2022/23 |
|---|---|---|
| £ | | £ |
| 61,417 | **Diwylliannol a Threftadaeth** | 61,505 |
| 477,165 | **Hamdden a Chwaraeon** | 523,061 |
| 66,500 | **Mynwent** | 50,000 |
| 198,591 | **Cefnogaeth Gymunedol** | 200,024 |
| 24,667 | **Digwyddiadau a Hyrwyddiadau** | 25,020 |
| 16,166 | **Llwybrau a Goleuo** | 16,520 |
| 216,265 | **Dinesig, Democratig a Gweinyddol** | 248,037 |
| 0 | **Prosiectau Cyfalaf** | 0 |
| -60,256 | **Llog a Buddsoddiadau** | -120,070 |
| -50,515 | **Arian sy'n Weddill** | -60,380 |
| £950,000 | | £943,717 |

## CEFNOGAETH GYMUNEDOL

Mae'r Cyngor yn berchen ac yn rheoli saith canolfan gymunedol sy'n cynnig cyfleusterau cymorthdaledig i bobl o bob oed. Yn ogystal mae'n cynghori a chynorthwyo grwpiau cymunedol ar ystod eang o bynciau ac yn darparu grantiau a nawdd i gefnogi gwaith llawer o glybiau, cymdeithasau a sefydliadau lleol. Mae ein Swyddog Datblygu Cymunedol yn parhau i weithio gyda llawer o sefydliadau ac yn darparu ystod eang o brosiectau ledled ein cymuned.

## LLWYBRAU A GOLEUO

Mae'r Cyngor yn parhau i archwilio a thori ar hyd llwybrau cyhoeddus y dref ar ran y Cyngor Sir. Mae'r Cyngor hefyd yn ariannu costau ynni a chynnal y nifer cynyddol o oleuadau stryd ar y llwybrau hyn.

## DINESIG, DEMORATIG A GWEINYDDOL

Dyma'r costau reoli cyfleusterau a gweithgareddau'r Cyngor yn y Gymuned ynghyd â phwyllgorau'r Cyngor a'r faeryddiaeth.

## DIWYLLIANNOL A THREFTADAETH

Mae Cyngor Tref Llanelli yn berchen ar Tŷ Llanelly sydd wedi'i brydlesu i YTASG ar brydles hir. Mae Cyngor y Dref a'r Cyngor Sir yn parhau i gefnogi'r Tŷ i sicrhau bod yr adeilad rhestredig Gradd i yn cael ei chynnal i'r safonau uchel gan ei alluogi i fod yn ased sylweddol i ganol y dref a'i hymwelwyr.

## MYNWENT LLANELLI

Mae Cyngor Tref Llanelli yn berchen ar Fynwent y Box ar y cyd gyda Chyngor Gwledig Llanelli a thrwy'r bartneriaeth hon ac ein rôl ar Gyd Pwyllgor Ymgynghorol Claddu Llanelli, yn parhau i ariannu'r fynwent.

## COVID 19 A ADFER CANOL Y DREF

Mae effaith COVID19 yn parhau i gael ei theimlo yn Llanelli, bydd Cyngor y Dref yn parhau i chwilio am ffyrdd o gefnogi Cymuned Llanelli wrth i ni symud ymlaen. Mae Cyngor y Dref mewn partneriaeth ag Ardal Gwella Busnes Llanelli a Chyngor Sir Caerfyrddin wedi datblygu cais Cronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth y DU ar gyfer prosiect Llysgennad a Chyflenwi Canol y Dref.

**Cysylltwch â ni os hoffech logi ystafell gyfarfod neu neuadd ar gyfer parti neu weithgaredd arall.**
**Am fwy o wybodaeth ymwelwch â'r wefan neu dilynwch ni ar Facebook**


**Yr Hen Ficerdy,**
**Sgwâr Neuadd y Dref,**
**LLANELLI, Sir Gâr. SA15 3DD**

**Ffôn: 01554 774352**
**e-bost: enquiries@llanellitowncouncil.gov.uk**
**Wefan: www.llanellitowncouncil.gov.uk**